# Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd

## Adroddiad Blynyddol 2025-26

## Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

onestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Unio
yloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bo
gored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro G
yfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestr
niondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloy
od yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Mo
wella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro G
yfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestr
niondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloy
od yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Mo
wella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi

sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# CYNNWYS


Rhagair gan y Cadeirydd ....................................................................................3
1. Rhagarweiniad ....................................................................................4
2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2025/26 ....................................................................................4
2.1. Rôl Craffu ....................................................................................4
2.2. Y Blaengynllun Gwaith ....................................................................................5
2.3. Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ..................6
2.4. Monitro Perfformiad / Materion Strategol....................................................................................6
2.4.1. Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2024-25 ........................................ 6
2.4.2. Cynlluniau Busnes Is-adrannol Drafft 2026/27 .................................................. 7
2.4.3 2025/26 - Adroddiadau Perfformiad sy'n berthnasol i'r Pwyllgor ......................... 7
2.5. Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf....................................................................................8
2.5.1. Adroddiadau Monitro Cyllideb .................................................................... 8
2.5.2. Strategaeth Cyllideb Refeniw 2026/27 i 2028/29 .............................................. 9
2.6. Deiseb - Gwelliannau Diogelwch Ffyrdd y tu allan i Ysgol yr Hendy - ...................10
2.7. Adroddiadau cyn gwneud penderfyniadau ....................................................................................11
2.7.1. Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd....................................................................................11
2.7.2. Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin Ionawr 2023 - Rhagfyr 2025....................................................................................11
2.7.3. Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin Ionawr 2026 - Rhagfyr 2028 ....................................................................................12
2.7.4. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu / Adolygiad o'r Gwasanaeth Gwastraff....................................................................................12
2.7.5. Adroddiad Rheoli Ansawdd Aer....................................................................................13
2.7.6. Diweddariadau Polisi a Strategaeth sy'n gysylltiedig â Thrafnidiaeth .................13
2.8. Adroddiadau y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor - Blaengynllun Gwaith ........13
2.8.1. Adolygiad o'r Terfyn Cyflymder o 20mya....................................................................................13
2.8.2. Canllaw Ffyrdd Preifat neu Heb eu Mabwysiadu....................................................................................14
2.8.3. Ymestyn Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (Gorchmynion Cŵn Sir Gaerfyrddin ....................................................................................15
2.8.4. Strategaeth Mynediad i Farchogwyr Sir Gaerfyrddin....................................................................................15
2.8.5. Gweithredu ar Newid Hinsawdd Sir Gâr - Mynd i'r Afael â'r Argyfyngau Newid Hinsawdd a Natur....................................................................................16
2.8.6. Strategaeth Archwilio Tir Halogedig Cyngor Sir Caerfyrddin - Diwygiwyd 2025.17
2.8.7 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Strategaeth Wastraff ....................................17
2.8.8 Y Wybodaeth Ddiweddaraf ac Adroddiad Cynnydd - Truecall© ........................17
2.8.9. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Orfodi Rheolau Cynllunio ..................................18
2.8.10. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan 18
2.8.11. Adolygiad Craffu Dwys - Trafnidiaeth (Panel Ymgynghorol ar Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Natur....................................................................................19

3. Gweithgarwch Craffu Arall ....................................................................................19
3.1. Gorchwyl a Gorffen ........................................................................................19
3.2 Ymweliadau Safle..............................................................................................20
3.2.1 Ymweliad Safle y Pwyllgor: Arddangos proses adfer tarmac.............................. 20
3.3 Sesiynau Datblygu ............................................................................................22
4. Effaith - Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni? ...................................22
5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd.........................................................................................23
6. Heriau ...................................................................................................................24
7. Gwaith yn y Dyfodol ..............................................................................................24
8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu ..............................................................................24
9. Presenoldeb...........................................................................................................25

## Rhagair gan y Cadeirydd



Mae’n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ar gyfer blwyddyn y cyngor 2025/26.

Mae'n bleser i rannu Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu, Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd ar gyfer blwyddyn y cyngor 2025/26.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Aelodau'r Pwyllgor wedi bod yn brysur yn archwilio ystod eang o bynciau o adolygu perfformiad a pholisïau i archwilio cyllidebau a darparu gwasanaethau. Bu'r Pwyllgor yn edrych ar sut mae mentrau cynaliadwyedd yn gweithio, newidiadau i drafnidiaeth gyhoeddus, rhoddwyd gwybodaeth i'r pwyllgor a bu'n helpu i lunio'r newidiadau mewn perthynas ag ystod eang o bynciau gan gynnwys y trefniadau newydd i gasglu gwastraff sydd yn effeithio ar breswylwyr ledled y Sir yn ogystal â chynlluniau gweithredu dros yr hinsawdd er budd ein cymunedau.

Un uchafbwynt oedd Adolygiad Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor, a oedd yn cynnwys yr aelodau yn cynnal ymchwiliad trylwyr i arferion bridio cŵn yn y gymuned. O ganlyniad i'r adolygiad manwl hwn a'r ymdrech ar y cyd, nodwyd argymhellion clir a chawsant eu derbyn gan y Cabinet, mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at dderbyn diweddariad ar hyn yn y flwyddyn i ddod.

Roedd eleni hefyd yn garreg filltir nodedig i'r Pwyllgor, gan mai hwn oedd y pwyllgor craffu cyntaf i dderbyn deiseb gan aelodau o'r cyhoedd. Roedd hyn yn dangos ymgysylltiad cynyddol gan y gymuned ac yn tynnu sylw at ba mor agored yw'r Pwyllgor i bryderon a mewnbwn y cyhoedd yn ei waith.

Er bod tair swydd wag ar y pwyllgor eleni, mae'r aelodau wedi gweithio gyda'i gilydd fel tîm i ddarparu adborth adeiladol trwy graffu.

Yn anad dim, mae'r adroddiad blynyddol hwn yn dangos ymrwymiad parhaus y Pwyllgor i wneud gwahaniaeth cadarnhaol. Mae craffu yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio gwaith y Cyngor, ac rydyn ni'n falch o helpu i wella gwasanaethau i bawb yn y sir.

Hoffwn fynegi fy niolch i'r holl swyddogion am eu hymdrechion diwyd i gyflwyno adroddiadau o ansawdd uchel i'r Pwyllgor. Unwaith eto, hoffwn gydnabod yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Karen Davies am ei chefnogaeth ddiwyro drwy gydol y flwyddyn. Yn olaf, rwyf am fynegi fy ngwerthfawrogiad i holl aelodau'r Pwyllgor am eu hymroddiad a'u cyfraniadau, sydd wedi sicrhau bod eleni yn flwyddyn gynhyrchiol a gwerth chweil.

**Y Cynghorydd Kevin Madge**
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Lle, Cynhaliadwyedd a Newid Hinsawdd 2025/26**

# 1. Rhagarweiniad

Mae'r swyddogaeth Graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrff partner ar draws y sir.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu *"baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol"*.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yn ystod blwyddyn y cyngor 2024/25. Ei nod yw rhoi cyfle i aelodau fwrw golwg ar ei gyflawniadau, nodi meysydd arferion gorau a thynnu sylw at feysydd i'w gwella er mwyn gwella'r swyddogaeth graffu ymhellach. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn hwyluso trafodaeth ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan y Cynghorydd Kevin Madge ac mae'n cynnwys 13 o Aelodau Etholedig. Roedd 3 swydd wag trwy gydol blwyddyn y cyngor ar gyfer 2025/26. Mae Aelodau Cabinet yn mynychu cyfarfodydd fel sy'n ofynnol er mwyn annerch y Pwyllgor ar feysydd yn eu portffolios priodol.

Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion eraill y Cyngor, pan fo angen.

# 2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2025/26

## 2.1. Rôl Craffu

Cyflwynodd yr Aelodau Cabinet canlynol adroddiadau/rhannau o adroddiadau sydd o fewn ei bortffolio ac sy'n rhan o faes gorchwyl y Pwyllgor Craffu.

**Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd -
Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen**

| | |
|---|---|
| Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd | Materion Niwsans Statudol (Sŵn, anifeiliaid anwes, gerddi wedi gordyfu) |
| Datgarboneiddio | Diogelu'r Cyhoedd |
| Bioamrywiaeth (argyfwng natur) | Arweinydd Datblygu Cynaliadwy |
| Polisi Trwyddedu | Tipio Anghyfreithlon |
| Safonau Masnach | Gorfodi Materion Amgylcheddol |
| Gwastraff Di-drwydded | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 |
| Ansawdd Aer | Strategaeth Clefyd Coed Ynn |
| Economi Gylchol | Safonau Bwyd |
| Iechyd yr Amgylchedd | Cynlluniau Argyfwng |
| Rheoli Llifogydd a Glannau | Hawliau Tramwy Cyhoeddus |
| Amddiffynfeydd Arfordirol | Mynediad i gefn gwlad |

**Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith - y Cynghorydd Edward Thomas**

| | |
|---|---|
| Sbwriel | Trafnidiaeth Teithwyr a Chymunedol |
| Glanhau Strydoedd | Strategaeth Ansawdd yr Amgylchedd a Sbwriel |
| Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth | Gwasanaethau torri gwair |
| Cynnal a Chadw Tiroedd | Atgyweirio a chynnal a chadw seilwaith |
| Gwasanaethau Adeiladu a Rheoli Ystadau (ac eithrio'r stoc dai) | Sbwriel a Glanhau'r Gymuned |
| Pontydd | Polisi Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| Teithio Llesol a Llwybrau Mwy Diogel | Cynnal a Chadw Parciau |
| Rheoli'r Fflyd (gan gynnwys adnewyddu a chynnal a chadw) | Cydweithio Rhanbarthol ar gyfer Trafnidiaeth, Priffyrdd a Gwastraff |
| Amlosgfa Arberth | Cludiant Ysgol |
| Apeliadau Cludiant Ysgol | Gwasanaethau stryd |
| Gofalu am Adeiladau a'u Glanhau | Rheoli Gwastraff |
| Gwasanaethau Parcio gan gynnwys Polisi, Rheoli a Gorfodi | Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref |
| Gwasanaethau Ailgylchu | |

**Aelod Cabinet dros Adnoddau - Y Cynghorydd Alun Lenny**

| | |
|---|---|
| Strategaeth Gyllid a'r Gyllideb | Rhaglen Gyfalaf |
| Cyllid Strategol (Prosiectau Corfforaethol) | Cyflawni Arbedion |
| Y Gwasanaethau Ariannol | Budd i'r Gymuned |
| Comisiynu a Chaffael | |

## 2.2. Y Blaengynllun Gwaith

Mae'r broses graffu yn chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo atebolrwydd ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Awdurdod Lleol. Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio ag asiantaethau allanol.

Er mwyn i'r Pwyllgorau Craffu gymryd mwy o berchnogaeth o'u Blaengynlluniau Gwaith eu hunain, cyflwynwyd dull craffu cyn gwneud penderfyniadau ym mis Medi 2022 sy'n caniatáu i Bwyllgorau Craffu benderfynu pa adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet y maent am eu gweld yn dod ger eu bron. Yn ôl y drefn arferol, mae Pwyllgorau hefyd yn gallu nodi eu pynciau eu hunain ac mae'r Cabinet yn dal i allu gwahodd Pwyllgor Craffu i graffu ar benderfyniad oedd ar y gweill.

Roedd y Blaengynllun Gwaith ar gyfer 2025/26 yn cynnwys monitro perfformiad, monitro'r gyllideb refeniw a chyfalaf, adroddiadau datblygu polisi a strategaeth, adolygiadau gwasanaeth, adroddiadau diweddaru a gweithgarwch y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Roedd y Cynllun yn ddogfen hyblyg ac fe'i diwygiwyd yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu newidiadau i amserlenni adroddiadau, peidioâ chyflwyno adroddiadau a cheisiadau gan y Pwyllgor am eitemau ychwanegol i'w dwyn gerbron y Pwyllgor Craffu.

Yn unol â Fframwaith y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu, penderfynodd y Pwyllgor pa adroddiadau fyddai'n cael eu hystyried mewn cyfarfodydd ffurfiol a pha rai fyddai'n cael eu dosbarthu i'r Aelodau y tu allan i'r cylch cyfarfod ffurfiol, gan gefnogi defnydd effeithiol o amser y cyfarfodydd a chynnal goruchwyliaeth o faterion allweddol.

## 2.3. Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd

Trefnir cyfarfodydd bob 6-8 wythnos i ystyried materion ac adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Blaengynllun Gwaith.  Cynhaliodd y Pwyllgor 6 cyfarfod ffurfiol yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26 a chynhaliwyd pob cyfarfod yn unol â'r darpariaethau a nodir yn Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, sesiynau Datblygu Aelodau ac ymweliadau safle sydd o fewn ei gylch gwaith.

## 2.4. Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Un o brif rolau'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yw monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau o fewn ei gylch gwaith.  Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau monitro perfformiad a gwahanol strategaethau a chynlluniau i roi asesiad cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol.

### 2.4.1. Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2024-25

Yn Hydref 2025, bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2024/25, a oedd yn nodi cynnydd yr Awdurdod yn erbyn ei Amcanion Llesiant a'i flaenoriaethau corfforaethol yn ystod y flwyddyn adrodd. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn galluogi craffu ar berfformiad a chanlyniadau a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor cyn i'r Cabinet ei ystyried.

Bu'r Aelodau yn edrych ar y canlynol:

- cynnydd yn erbyn yr Amcanion Llesiant sy'n berthnasol i Le, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd;
- gwybodaeth am berfformiad yn ymwneud â phriffyrdd, gwasanaethau amgylcheddol a gweithgarwch newid hinsawdd;
- sut y cyflwynwyd data perfformiad a'i ddefnyddio i ddangos cynnydd a meysydd i'w gwella; a
- phwysigrwydd yr Adroddiad Blynyddol wrth gefnogi tryloywder, atebolrwydd a gwelliant parhaus.

Cafwyd cwestiynau a sylwadau gan aelodau ar gynnwys yr adroddiad, a bu'r swyddogion yn ymateb iddynt, gan ddarparu eglurhad ar y perfformiad a chynnydd o fewn meysydd gwasanaeth o dan gylch gwaith y Pwyllgor.

**Canlyniad:**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad a phenderfynodd argymell Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2024/25 i'r Cabinet i'w ystyried.

### 2.4.2. Cynlluniau Busnes Is-adrannol Drafft 2026/27

Ym mis Ionawr 2026, derbyniodd y Pwyllgor y Cynlluniau Busnes drafft ar gyfer 2026/27 yn ymwneud â meysydd gwasanaeth o fewn ei gylch gorchwyl, sef:

- Cymunedau Iach a Diogelu'r Cyhoedd
- Seilwaith Amgylcheddol
- Lle a Chynaliadwyedd

Roedd y Cynlluniau Busnes yn nodi'r camau a'r mesurau arfaethedig ar gyfer blwyddyn y cyngor sydd i ddod ac fe'u cyflwynwyd i alluogi craffu ar sut y byddai gwasanaethau yn cyflawni yn erbyn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ac yn cynnal swyddogaethau statudol a gweithredol allweddol.

Trafododd yr aelodau y canlynol:

- cynnydd ar y mentrau presennol, gan gynnwys rhaglen Bwyd Sir Gâr a Bwydlen Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n hyrwyddo'r defnydd o gynnyrch lleol mewn arlwyo ysgolion;
- cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu incwm, gan gynnwys y potensial ar gyfer ffioedd parcio dros nos ar gyfer cartrefi modur a cherbydau nwyddau trwm, a'r angen i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid masnachol;
- gweithredu'r system newydd o gasglu gwastraff o dŷ i dŷ fesul cam, gan gynnwys pa ardaloedd y byddai'n cael eu cynnwys yn y cyflwyniad cychwynnol; a
- phwysigrwydd ymgysylltu â'r gweithlu, gyda swyddogion yn cadarnhau bod yr ymgynghoriad staff ar y gweill cyn ymgysylltu'n ehangach ag Aelodau.

**Canlyniad:**

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol gymeradwyo'r Cynlluniau Busnes sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Craffu hwn ar gyfer 2026/27.

### 2.4.3 2025/26 - Adroddiadau Perfformiad sy'n berthnasol i'r Pwyllgor

Dosbarthwyd adroddiadau monitro perfformiad chwarterol sy'n berthnasol i'r Pwyllgor i'r Aelodau yn ystod y flwyddyn, gan alluogi goruchwyliaeth barhaus o berfformiad y gwasanaeth ac aliniad â'r Strategaeth Gorfforaethol.

- Hydref 2025 - Monitro Perfformiad Chwarter 1 (01/04/25 - 30/06/25)
- Ionawr 2026 - Monitro Perfformiad Chwarter 2 (01/04/25 - 30/09/25) - drwy e-bost
- Mawrth 2026 - Monitro Perfformiad Chwarter 3 (01/04/2025-31/12/2025)

Roedd yr adroddiadau yn galluogi aelodau i fonitro perfformiad mewn perthynas â'r Amcanion Llesiant sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor ac sy'n cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod. Roedd y wybodaeth yn rhoi hunanwerthusiad o berfformiad yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol diwygiedig sydd wedi'i ymgorffori yn Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

Yn ystod ystyried Adroddiad Perfformiad Diwedd Chwarter 3 2025/26, sy'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Rhagfyr 2025, canolbwyntiodd yr Aelodau'n benodol ar fesurau perfformiad a oedd oddi ar y targed yn yr adroddiad. Roedd y drafodaeth wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- y rhesymau dros danberfformiad yn erbyn mesurau penodol, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â Safonau Bwyd a Diogelu'r Cyhoedd;
- pwysau adnoddau sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau a'r gallu i gyrraedd targedau;
- yr angen am gymorth cenedlaethol ac ymgysylltu â chyrff allanol, gan gynnwys yr Asiantaeth Safonau Bwyd; a’r
- camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â chapasiti'r gweithlu, gan gynnwys datblygu staff yn y tymor hir ac ymgysylltu â sefydliadau addysg uwch i gefnogi recriwtio yn y dyfodol.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynglŷn â'r sefyllfa barhaus o fesurau penodol a oedd oddi ar y targed gan geisio sicrwydd bod camau adfer priodol yn cael eu symud ymlaen.

**Canlyniad:**

**Hydref 2025 - Adroddiad Perfformiad Diwedd Chwarter 1**
Penderfynwyd bod Adroddiad Perfformiad Diwedd Chwarter 1 ar gyfer 2025/26 yn cael ei gymeradwyo

**Ionawr 2026 - Adroddiad Perfformiad Diwedd Chwarter 1 - Craffu drwy e-bost**
Nid oedd sylwadau wedi dod i law

**Mawrth 2026 - Adroddiad Perfformiad Diwedd Chwarter 3**

Penderfynodd y Pwyllgor:

- bod Adroddiad Perfformiad Diwedd Chwarter 3 yn cael ei gymeradwyo; a
- bod pryderon y Pwyllgor mewn perthynas â'r mesurau oddi ar y targed - (PP/FOOD/001, PP/FOOD/002 a PPN/001i) yn cael eu cyfeirio at y Cabinet, gyda chais am adroddiad manwl i'w ystyried.

## 2.5. Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

### 2.5.1. Adroddiadau Monitro Cyllideb

Yn unol â Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor, cafodd adroddiadau chwarterol ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol eu hystyried mewn cyfarfod ffurfiol neu eu dosbarthu i'r aelodau ar gyfer craffu drwy e-bost fel a ganlyn:-

- Hydref 2025 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 30 Mehefin 2025.
- Hydref 2025 - Adroddiad Alldro 2024/25 ar sefyllfa ariannol diwedd y flwyddyn.
- Tachwedd 2025 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Awst 2025.

Er mwyn rheoli nifer yr eitemau craffu ar agenda ffurfiol Ionawr 2025, dosbarthwyd yr adroddiad monitro cyllideb canlynol i'w adolygu trwy e-bost.

- Mehefin 2025 - mewn perthynas â’r sefyllfa gyllidebol ar 28 Chwefror 2025.

Roedd yr adroddiadau yn galluogi'r aelodau i fonitro gwariant ym mhob maes gwasanaeth a’r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.  Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

Wrth ystyried Adroddiadau Monitro Cyllideb Refeniw a Chyfalaf, archwiliodd yr Aelodau y gorwariant a ragwelwyd o fewn gwasanaethau sy'n dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor gan geisio sicrwydd ynghylch achosion yr amrywiadau a'r camau lliniaru sydd ar waith. Rhoddwyd sylw arbennig i lithriad rhaglenni cyfalaf, pwysau sy'n gysylltiedig â phriffyrdd a seilwaith, a chyllid a goblygiadau hirdymor mesurau datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd.

### 2.5.2. Strategaeth Cyllideb Refeniw 2026/27 i 2028/29

Yn ogystal â monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf presennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2026/27 i 2028/29 yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2026. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r Strategaeth Cyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2026/27 i'r Pwyllgor, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2027/2028 a 2028/29.

Wrth ystyried y Strategaeth Cyllideb Refeniw ar gyfer 2026/27 i 2028/29, archwiliodd yr Aelodau effaith bosibl y cynigion ar wasanaethau o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor gan geisio sicrwydd ynghylch cyflawni'r mesurau arbedion ac effeithlonrwydd arfaethedig. Rhoddwyd sylw arbennig i effaith pwysau chwyddiant, risgiau ariannol tymor hwy, ac aliniad y Strategaeth ag ymrwymiadau newid hinsawdd a datgarboneiddio. Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd monitro parhaus ac ymgysylltu â chraffu cynnar fel rhan o'r broses ymgynghori ehangach ar y gyllideb.

**<u>Canlyniad:</u>**

Yn dilyn craffu ar y Strategaeth Cyllideb Refeniw ar gyfer 2026/27 i 2028/29, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn y Strategaeth a chyflwyno ei sylwadau fel rhan o broses ymgynghori ehangach yr Awdurdod ar y gyllideb.

## 2.6. Deiseb - Gwelliannau Diogelwch Ffyrdd y tu allan i Ysgol yr Hendy -

Mae'r holl ddeisebau a dderbynnir ac sy'n cyrraedd y trothwy o dan Reol 10.11 o Weithdrefn y Cyngor i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu perthnasol a'u hystyried o dan Reolau'r Weithdrefn Graffu (Rhan 4.5 o'r Cyfansoddiad) ac yn unol â Chynllun Deisebau yr Awdurdod.

Cafwyd deiseb gan aelod o'r pwyllgor a gofynnwyd i'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd drafod y mater a phenderfynu ar ba gamau y dylid eu cymryd o ganlyniad

Ym mis Gorffennaf 2025, cyflwynwyd y ddeiseb i'r Pwyllgor yn gofyn am welliannau diogelwch ffyrdd y tu allan i Ysgol Hendy, gan adlewyrchu pryderon cymunedol ynghylch cyflymder traffig a diogelwch cerddwyr.

Trafododd yr Aelodau'r risgiau diogelwch a nodwyd gan y deisebwyr a nododd sylwadau'r Aelod lleol bod cynlluniau a dyluniadau ar gyfer gwelliannau ar y gweill fel rhan o ymgynghoriad. Pwysleisiodd y Pwyllgor mai diogelwch oedd y brif ystyriaeth a bu'n ystyried sut y dylid symud ymlaen â'r mater o fewn y trefniadau priffyrdd a diogelwch ar y ffyrdd presennol.

Yn unol â Chynllun Deisebau'r Awdurdod, penderfynodd y Pwyllgor ei gyfeirio at yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith am ymateb.

**Canlyniad:**

Penderfynwyd yn unfrydol gan y Pwyllgor:
bod y ddeiseb yn cael ei chyfeirio at yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith, ac y gofynnir am ymateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor Craffu a'r Prif Ddeisebwr.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet yn unol â hynny, gan roi gwybod i'r deisebydd bod gwelliannau diogelwch y tu allan i Ysgol Hendy wedi'u rhoi ar waith. Mynegodd ei obaith fod y groesfan newydd wedi dod â newid ystyrlon a chadarnhaol i'r gymuned, yn enwedig i'r rhai sy'n mynychu Ysgol Hendy.  Roedd y Deisebydd yn ddiolchgar a diolchodd i bawb a fu'n ymwneud â'r mater am eu cefnogaeth a'u hymdrechion.

## 2.7. Adroddiadau cyn gwneud penderfyniadau

Yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26, nododd y Pwyllgor nifer o adroddiadau cyn gwneud penderfyniadau yn deillio o Flaengynllun Gwaith y Cabinet i'w craffu. Craffodd yr Aelodau ar yr adroddiadau hyn yn gynnar, gan archwilio'r sylfaen dystiolaeth, effaith ar wasanaeth a chymunedau, ac aliniad ag amcanion polisi ehangach. Roedd sylwadau a chwestiynau'r Pwyllgor wedi llywio'r penderfyniadau dilynol cyn i'r Cabinet roi ystyriaeth iddynt.

### 2.7.1. Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd

Hydref 2025 - Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor craffu i roi sicrwydd ynghylch cyflwr y rhwydwaith priffyrdd a blaenoriaethu buddsoddiad cynnal a chadw.

Bu'r Aelodau yn edrych ar y canlynol:

- cyflwr ffyrdd gwledig, gan gynnwys tyllau ar y ffyrdd ac ymylon ffyrdd;
- y fethodoleg ar gyfer blaenoriaethu gwaith cynnal a chadw;
- y berthynas rhwng cyflwr asedau, diogelwch a chyllid sydd ar gael; a
- sut mae'r Cynllun yn cyd-fynd â chynllunio ariannol a chyfalaf hirdymor.

**<u>Canlyniad:</u>**

Craffodd y Pwyllgor ar y Cynllun drafft cyn i'r Cabinet ei ystyried, gan dynnu sylw at feysydd a oedd yn peri pryder sy'n ymwneud â chyflwr ffyrdd gwledig a fforddiadwyedd. Roedd y drafodaeth wedi llywio adroddiadau a phenderfyniadau dilynol.

### 2.7.2. Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin Ionawr 2023 - Rhagfyr 2025

Yn Hydref 2025, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd ar gyfer Ionawr 2023 i fis Rhagfyr 2025, a oedd yn nodi'r camau a gymerwyd gan y Cyngor i fodloni ei Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Roedd yr adroddiad yn galluogi Aelodau i adolygu'r cyflawniad dros gyfnod y cynllun tair blynedd cyn ystyried i'r Cabinet ei ystyried.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod graddfa'r gwaith a wnaed ar draws cyfnod y cynllun gan fynegi eu gwerthfawrogiad i swyddogion am eu hymdrechion i ddiogelu bioamrywiaeth yn ystod cyfnod o bwysau cynyddol o ran hinsawdd a natur. Roedd y drafodaeth wedi tynnu sylw at y canlynol:

- pwysigrwydd gweithredu parhaus i ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd;
- cydnabyddiaeth bod uchelgais y Cyngor ynghylch datgarboneiddio wedi cynyddu dros amser; a
- phryderon ynghylch plannu peillwyr ar ymylon y ffordd, yn enwedig ar gefnffyrdd, a risgiau posibl i bryfed peillio.

Eglurodd swyddogion fod cefnffyrdd yn dod o dan gyfrifoldeb Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru ac nad oedd data penodol yn ymwneud ag effeithiau peillwyr ar gefnffyrdd yn cael ei gadw gan y Cyngor.

**<u>Canlyniad:</u>**

Penderfynodd y Pwyllgor argymell i'r Cabinet gymeradwyo Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin 2023-2025.

### 2.7.3. Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin Ionawr 2026 - Rhagfyr 2028

Yn Hydref 2025, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yn amlinellu'r cwmpas a'r cyfleoedd ar gyfer Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd y Cyngor am y tair blynedd nesaf (Ionawr 2026 i Ragfyr 2028). Roedd y cynllun hwn yn cynrychioli trydydd Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd ac yn nodi sut roedd y Cyngor yn bwriadu parhau i gyflawni ei ddyletswydd statudol i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Trafododd yr Aelodau fentrau sy'n ceisio mynd i'r afael â'r argyfwng natur, gyda ffocws penodol ar fesurau gwella bioamrywiaeth. Roedd y drafodaeth yn cynnwys y canlynol:

- cynnydd wrth gefnogi rhywogaethau sy'n dirywio, yn enwedig poblogaethau gwenoliaid;
- gwaith cydweithredol gyda phartneriaid allanol, gan gynnwys Clwb Adar Caerfyrddin a'r Gwasanaethau Tai, i nodi lleoliadau addas ar gyfer blychau nythu i wenoliaid; a
- pwysigrwydd dewis safle yn ofalus i sicrhau cynaliadwyedd trefedigaethau hirdymor, yn enwedig lle'r oedd adeiladau'n destun ailddatblygu.

Esboniodd swyddogion sut roedd monitro data ac ymweliadau safle yn llywio penderfyniadau ar leoliad blychau nythu.

**Canlyniad:**
Penderfynodd y Pwyllgor argymell i'r Cabinet gymeradwyo Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin 2026-2028.

### 2.7.4. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu / Adolygiad o'r Gwasanaeth Gwastraff

Nodwyd adroddiadau sy'n gysylltiedig â gwastraff o Flaengynllun Gwaith y Cabinet er mwyn caniatáu i'r Aelodau graffu ar berfformiad y gwasanaeth, cyfeiriad polisi a chynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

Trafododd yr aelodau y canlynol:

- perfformiad y gwasanaeth a heriau gweithredol;
- effaith newidiadau polisi ar drigolion;
- tipio anghyfreithlon a gweithgarwch gorfodi; ac
- aliniad ag amcanion amgylcheddol a chynaliadwyedd.

**Canlyniad:**
Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiadau ar gam ffurfiannol, gan alluogi'r Aelodau i godi materion a cheisio eglurhad cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad. Derbyniwyd yr adroddiadau, gyda materion wedi'u nodi ar gyfer monitro parhaus.

### 2.7.5. Adroddiad Rheoli Ansawdd Aer

Mawrth 2026 - Dewiswyd yr Adroddiad Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer craffu cyn gwneud penderfyniad o ystyried pa mor berthnasol yw i iechyd y cyhoedd, diogelu'r amgylchedd a rhwymedigaethau statudol.

Canolbwyntiodd yr aelodau ar y canlynol:

- data a thueddiadau monitro ansawdd aer;
- cynnydd yn erbyn gofynion statudol;
- cysylltiadau rhwng ansawdd aer, polisi trafnidiaeth ac amcanion newid hinsawdd; a
- goblygiadau ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol.

**Canlyniad:**
Bu'r Pwyllgor yn craffu ar yr adroddiad cyn i'r Cabinet ei ystyried, gan nodi cynnydd a meysydd sydd angen ffocws parhaus. Derbyniwyd yr adroddiad, gyda sylwadau'r Aelodau yn llywio'r ystyriaeth ddilynol.

### 2.7.6. Diweddariadau Polisi a Strategaeth sy'n gysylltiedig â Thrafnidiaeth

Cafodd adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, gan gynnwys diweddariadau strategol a gweithredol, eu cyflwyno at ddiben craffu cyn gwneud penderfyniad.

Bu'r Aelodau yn edrych ar y canlynol:

- aliniad y polisi trafnidiaeth ag amcanion cynaliadwyedd a datgarboneiddio;
- effeithiau ar gymunedau a hygyrchedd;
- risgiau cyllido a chyflawni; a
- chysylltiadau â strategaethau trafnidiaeth rhanbarthol a chenedlaethol ehangach.

Bu'r Pwyllgor yn craffu ar yr adroddiadau yn gynnar yn y broses, gan roi her a cheisio sicrwydd cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad.

**Canlyniad:**

Bu'r Pwyllgor yn craffu ar yr adroddiadau yn gynnar yn y broses, gan roi her a cheisio sicrwydd cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad.

## 2.8. Adroddiadau y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor - Blaengynllun Gwaith

Yn unol â Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor 2025/26, cyflwynwyd adroddiadau gan yr Aelod Cabinet perthnasol.  Yn ystod yr achlysuron prin o beidio â chyflwyno, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn nodi'r rheswm a byddai'n cael ei ail-gyflwyno i'r Blaengynllun Gwaith yn unol â hynny.

### 2.8.1. Adolygiad o'r Terfyn Cyflymder o 20mya

Ym mis Mehefin 2025, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o Ganllawiau Terfyn Cyflymder 20mya diwygiedig Llywodraeth Cymru a dull asesiad risg y

Cyngor o adolygu'r terfynau cyflymder yn dilyn rhaglen wrando Llywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r sylwadau a dderbyniwyd, y fethodoleg asesu, y canlyniadau, a'r camau nesaf a argymhellir i sicrhau rhwydwaith priffyrdd diogel a chydlynol.

Trafododd yr aelodau y canlynol:

- y broses ar gyfer adolygu ac asesu ffyrdd posib i ddychwelyd i 30mya;
- y broses ymgynghori sydd i ddod, gan gynnwys ymgysylltu ag ymgyngoreion statudol ac eiddo yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y newidiadau arfaethedig;
- y defnydd o ddata am gyfansoddiad cerbydau i lywio asesiadau;
- trefniadau ariannu, gyda swyddogion yn cadarnhau bod yr adolygiad wedi'i ariannu drwy gymorth grant Llywodraeth Cymru;
- cyfrifoldebau gorfodi, gan gynnwys rôl Gan Bwyll a'r Heddlu; a
- thystiolaeth sy'n dangos gostyngiad mewn gwrthdrawiadau traffig ffyrdd, marwolaethau ac anafiadau ers cyflwyno'r terfyn cyflymder 20mya, er gwaethaf y pryderon gwreiddiol ynghylch rhoi hyn ar waith.

Nododd yr Aelodau hefyd gamau adolygu arfaethedig yn y dyfodol a fyddai'n cynnwys ffyrdd dosbarth 'C' a ffyrdd diddosbarth a phriodoldeb terfynau cyflymder clustogi,

**<u>Canlyniad:</u>**

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol fod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

### 2.8.2. Canllaw Ffyrdd Preifat neu Heb eu Mabwysiadu

Mehefin 2025 - Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yn cyflwyno canllawiau atodol i'r Canllaw Dylunio Priffyrdd, sy'n nodi'r broses a'r gofynion ar ddynodi ffyrdd preifat neu ffyrdd heb eu mabwysiadu yn briffyrdd cyhoeddus y gellir eu cynnal gan arian cyhoeddus. Mae'r canllaw yn manylu ar weithdrefnau ymgeisio, meini prawf asesu, ffioedd cysylltiedig, a symiau cyfnewid ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol lle bo'n berthnasol.

Trafododd yr aelodau y canlynol:

- nifer a dosbarthiad y ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu ar draws y sir a sut mae hyn yn cymharu ag awdurdodau cyfagos;
- datblygu cofrestr gynhwysfawr o ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu, yn seiliedig ar ddull asesu risg wrth flaenoriaethu;
- eglurhad o ffioedd sy'n ymwneud ag archwilio a chymeradwyo ceisiadau; a
- chadarnhad nad oes hawl gyffredinol i barcio ar ffyrdd preifat neu heb eu mabwysiadu ac eithrio'r perchennog.

Nododd swyddogion hefyd gamgymeriad teipio bach yn y ddogfen, a fyddai'n cael ei gywiro.

**<u>Canlyniad:</u>**

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol fod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

### 2.8.3. Ymestyn Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (Gorchmynion Cŵn Sir Gaerfyrddin

Mehefin 2025 - Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar yr estyniad arfaethedig i'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus 2016 presennol ar gyfer Sir Gaerfyrddin, sy'n gosod gofynion ar berchnogion cŵn i leihau niwsans a diogelu mannau cyhoeddus. Mae'r adroddiad yn nodi'r rhesymeg dros yr estyniad am dair blynedd pellach ac yn crynhoi canfyddiadau'r ymarfer ymgynghori wedi'i dargedu.

Trafododd yr aelodau y canlynol:

- effeithiolrwydd y Gorchymyn presennol wrth fynd i'r afael â niwsans sy'n gysylltiedig â chŵn;
- adborth ymgynghori sy'n cefnogi'r estyniad arfaethedig;
- y potensial i gyflwyno Gorchmynion ychwanegol sy'n benodol i leoliad lle mae tystiolaeth yn cyfiawnhau rheolaethau pellach;
- egluro pwerau gorfodi a swyddogion awdurdodedig; a'r
- gwaharddiadau tymhorol presennol o ran cŵn ar draethau penodol a'r cwmpas i ymestyn rheolaethau lle'r oedd tystiolaeth briodol yn bodoli.

Cadarnhaodd swyddogion y gellid targedu gweithgarwch gorfodi mewn ardaloedd penodol a bod pecyn cymorth wedi'i ddatblygu i gefnogi ceisiadau lleol ar gyfer Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus ychwanegol.

**Canlyniad:**

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn â'r argymhellion canlynol:-
a) Bod hyd Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin 2016 yn cael ei ymestyn am gyfnod pellach o 3 blynedd o 1 Gorffennaf 2025 ymlaen.
b) Bod y Cyngor yn gwneud Gorchymyn Estyn i weithredu'r estyniad uchod ac yn cymeradwyo Gorchymyn 2016 â geiriad addas er mwyn adlewyrchu'r ffaith fod hyd Gorchymyn 2016 wedi cael ei ymestyn ymhellach.

### 2.8.4. Strategaeth Mynediad i Farchogwyr Sir Gaerfyrddin

Gorffennaf 2025 - Bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Mynediad i Farchogwyr Sir Gaerfyrddin, a ddatblygwyd yn unol â Chynllun Gwella Hawliau Tramwy y Cyngor 2019-2029. Roedd y Strategaeth, y cyntaf o'i math yng Nghymru, yn nodi fframwaith i hyrwyddo a datblygu rhwydwaith marchogaeth diogel a hygyrch ledled y sir, cyn i'r Cabinet ei hystyried.

Trafododd yr aelodau y canlynol:

- cyfyngiadau mynediad ar gyfer marchogaeth o fewn y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol a'r heriau diogelwch sy'n wynebu marchogwyr, yn enwedig ar y ffordd;
- pwysigrwydd gwella darpariaeth ac arwyddion oddi ar y ffordd i gefnogi mynediad i farchogwyr ochr yn ochr â defnyddwyr eraill;
- y cydbwysedd rhwng camau gweithredu y byddai modd eu cyflawni o fewn adnoddau presennol a gweithredoedd mwy uchelgeisiol sy'n gofyn am gyllid allanol;
- y cyfraniad y gallai gwell mynediad ar gyfer marchogwyr ei wneud i iechyd a llesiant, twristiaeth gynaliadwy, amcanion teithio llesol a lleihau carbon; a

- thystiolaeth ac adborth a ddarparwyd gan gynrychiolwyr Cymdeithas Ceffylau Prydain, a groesawodd y Strategaeth gan dynnu sylw at ei natur arloesol a'i photensial i ddatgloi buddsoddiad yn y dyfodol.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod, er bod y Strategaeth yn gadarn ac yn cynnwys tystiolaeth dda, y byddai argaeledd cyllid yn hanfodol i gyflawni'r strategaeth yn effeithiol.

**Canlyniad:**

Penderfynwyd yn unfrydol gan y Pwyllgor:
**argymell i'r Cabinet dderbyn Strategaeth Mynediad i Farchogwyr Sir Gaerfyrddin;** a **bod llythyr yn cael ei anfon ar ran y Pwyllgor Craffu at Lywodraeth Cymru yn ceisio cyllid i gefnogi cyflawni'r Strategaeth**.

Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Dirprwy Brif Weinidog a'r Ysgrifennydd Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn gofyn am gymorth ariannol penodol i alluogi cyflawni'r deuddeg cam gweithredu o fewn y Strategaeth, yn enwedig y rhai a nodwyd fel rhai uchelgeisiol ac yn ddibynnol ar adnoddau.

Mewn ymateb, roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth y Strategaeth a chadarnhaodd ei bod yn cyd-fynd ag amcanion cenedlaethol i hyrwyddo mynediad i gefn gwlad, iechyd a llesiant, a hamdden heb ddefnyddio modur. Tynnodd yr ymateb sylw at y Grant Gwella Mynediad Llywodraeth Cymru, rhaglen gwerth £4 miliwn ar gyfer 2025-2027, gan gadarnhau y byddai Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn £232,000 dros y cyfnod hwn, gan nodi bod prosiectau arfaethedig ar gyfer 2026-27 yn cynnwys gwelliannau i'r llwybr ceffylau.

### 2.8.5. Gweithredu ar Newid Hinsawdd Sir Gâr - Mynd i'r Afael â'r Argyfyngau Newid Hinsawdd a Natur

Gorffennaf 2025 - Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a chyflwyniad yn amlinellu cynnydd yr Awdurdod ar Weithredu ar Newid Hinsawdd Sir Gâr, gan ganolbwyntio ar y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â’r argyfyngau newid hinsawdd a natur.

Bu'r Aelodau'n ystyried y cynnydd hanner ffordd drwy'r rhaglen, gan gynnwys y gostyngiad mewn allyriadau ers y flwyddyn sylfaenol a'r offer a ddatblygwyd i gefnogi cyflawni'r gwaith, megis lleihau carbon a modelau costio. Canolbwyntiodd y drafodaeth hefyd ar ymgysylltu â staff, y defnydd o gerbydau trydan, a rôl cyfathrebu mewnol wrth gefnogi newid ymddygiad. Nododd yr Aelodau fod Adolygiad Craffu Dwys wedi'i gynnal gan y Panel Ymgynghorol ar Natur a Newid Hinsawdd.

**Canlyniad:**

Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol:
1. i dderbyn yr adroddiad a'r cyflwyniad; a
2. bod yr Adolygiad Craffu Dwys gan y Panel Ymgynghorol ar Natur a Newid Hinsawdd yn cael ei gynnwys ar y Blaenraglen Waith Craffu.

Ystyriwyd yr Adolygiad Craffu Dwys gan y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2025.

### 2.8.6. Strategaeth Archwilio Tir Halogedig Cyngor Sir Caerfyrddin - Diwygiwyd 2025

Gorffennaf 2025 - Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Strategaeth Arolygu Tir Halogedig diwygiedig, a oedd yn nodi dull statudol y Cyngor o nodi, blaenoriaethu a rheoli tir halogedig.

Trafododd yr aelodau y dull seiliedig ar risg a fabwysiadwyd yn y Strategaeth, y cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a'r adnodau sydd ar gael i reoli materion tir halogedig. Codwyd cwestiynau ynglŷn â chapasiti staffio a'r pwysau sy'n gysylltiedig ag ymateb i ymholiadau a chwynion.

| **Canlyniad:**<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn |
|---|

### 2.8.7 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Strategaeth Wastraff

Gorffennaf 2025 - Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf ar y Strategaeth Wastraff, yn amlinellu cynnydd a datblygiadau mewn rheoli gwastraff a chyfeiriad polisi.

Archwiliodd yr aelodau y broses arfaethedig o gyflwyno'r gwasanaeth fesul cam, modelau gweithredol, gofynion seilwaith, trefniadau cyllido, a goblygiadau i drigolion. Roedd y drafodaeth hefyd yn cynnwys materion mynediad a diogelwch yn Nant-y-caws, cynllunio wrth gefn pe bai oedi o ran cael cyllid, hygyrchedd i drigolion ag anableddau neu allgáu digidol, a phwysigrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd i leihau cyfraddau halogi.

Roedd y drafodaeth yn helaeth o ran cynnwys yr adroddiad gan gynnwys y cyfnod cyflwyno fesul cam, cyflwyno'r Glasbrint, mynediad Nant-y-caws, risg ariannu, hygyrchedd, cyfraddau halogi, ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

| **Canlyniad:**<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn |
|---|

### 2.8.8 Y Wybodaeth Ddiweddaraf ac Adroddiad Cynnydd - Truecall©

Ym mis Hydref 2025, cafodd yr Aelodau y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y **system Truecall**, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- perfformiad y system,
- cynnydd yn erbyn y canlyniadau disgwyliedig, a
- sut roedd y system yn cefnogi darparu gwasanaethau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

Trafododd yr aelodau berfformiad a dibynadwyedd y system, sut roedd y system yn cefnogi darparu gwasanaethau, a phwysigrwydd monitro parhaus i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion gweithredol.

Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd ynghylch monitro parhaus.

| **Canlyniad:**<br>Derbyniwyd yr adroddiad diweddaru. |
|---|

### 2.8.9. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Orfodi Rheolau Cynllunio

Ym mis Mawrth 2026, bu'r Aelodau'n ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch Gorfodi Rheolau Cynllunio, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- pwysau llwyth gwaith a blaenoriaethu,
- capasiti gorfodi, a'r
- effaith ar gymunedau.

Trafododd yr aelodau y canlynol:

- rôl effeithiol gorfodi rheolau cynllunio wrth gefnogi swyddogaeth ehangach Rheoli Datblygu a diogelu amwynderau cyhoeddus;
- y data perfformiad a oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad, yn enwedig canran yr achosion lle cymerwyd camau cadarnhaol o fewn 180 diwrnod;
- y gwelliant cyffredinol mewn perfformiad wrth orfodi rheolau cynllunio dros amser, er gwaethaf rhywfaint o amrywiad diweddar mewn dangosyddion penodol;
- a ellid ailystyried gwybodaeth ychwanegol a ddarperir gan achwynwyr ar ôl i achos gael ei gau; a
- phwysigrwydd tryloywder ynghylch prosesau gorfodi i reoli disgwyliadau'r cyhoedd.

Esboniodd swyddogion y gellid ailgyflwyno rhagor o wybodaeth fel cwyn newydd lle bo hynny'n briodol, a bod adroddiadau ystadegol ychwanegol ar gael trwy lwybrau craffu eraill a diweddariadau chwarterol.

| **<u>Canlyniad:</u>**<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad, gyda'r Aelodau yn nodi'r gwelliannau a wnaed o fewn y gwasanaeth Gorfodi Rheolau Cynllunio. |
|---|

### 2.8.10. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan

Ym mis Mawrth 2026, trafododd yr Aelodau gynnydd ar y **Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan,** gan gynnwys:

- cynnydd o ran cyflwyno'r strategaeth,
- lleoliadau daearyddol,
- ystyriaethau cyllido, ac
- aliniad ag amcanion datgarboneiddio.

| **<u>Canlyniad:</u>**<br><br>Derbyniwyd y diweddariad, gan nodi sylwadau'r Aelodau i lywio'r gwaith parhaus. |
|---|

### 2.8.11. Adolygiad Craffu Dwys - Trafnidiaeth
### (Panel Ymgynghorol ar Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Natur

Tachwedd 2025 - Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr Adolygiad Craffu Dwys a gynhaliwyd gan y Panel Ymgynghorol ar Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Natur a fu'n archwilio dull yr Awdurdod o ddatgarboneiddio allyriadau'r fflyd a thrafnidiaeth busnes. Rhoddodd yr adolygiad ddadansoddiad strategol o'r polisïau, rhaglenni ac ymyriadau presennol gyda'r nod o leihau allyriadau carbon o weithgareddau trafnidiaeth sydd o fewn rheolaeth uniongyrchol y Cyngor.

Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith bod trafnidiaeth yn parhau i fod yn un o'r cyfranwyr mwyaf arwyddocaol at ôl troed carbon y Cyngor gan nodi'r disgwyliadau statudol a osodwyd ar yr Awdurdod gan Lywodraeth Cymru i symud tuag at gerbydau allyriadau isel iawn.

Trafododd yr aelodau y canlynol:

- graddfa allyriadau trafnidiaeth o fewn ôl troed carbon cyffredinol y Cyngor a'r angen i ganolbwyntio’n barhaus ar ddatgarboneiddio'r fflyd;
- manteision ariannol a gweithredol trosglwyddo i gerbydau trydan a cherbydau allyriadau isel iawn, gan gynnwys lleihau costau tanwydd a chynnal a chadw;
- pwysigrwydd mynd i'r afael â chamwybodaeth sy'n ymwneud â cherbydau trydan a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan ddata a thystiolaeth gredadwy; a
- chynllunio wrth gefn ar gyfer gweithrediadau'r fflyd, gan gynnwys pryderon ynghylch gwytnwch pe bai toriadau trydan yn effeithio ar wefru cerbydau.

Mewn ymateb, eglurodd yr Aelod Cabinet y byddai'r polisi fflyd yn mabwysiadu cerbydau allyriadau isel iawn fel yr opsiwn diofyn wrth adnewyddu, gydag asesiad Technegol, Economaidd, Amgylcheddol ac Ymarferol (TEEP) yn cael ei ddefnyddio i gyfiawnhau unrhyw eithriadau yn seiliedig ar ofynion sy'n benodol i wasanaethau.

**Canlyniad:**

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adolygiad Craffu Dwys gan nodi sylwadau'r Aelodau.

## 3. Gweithgarwch Craffu Arall

### 3.1. Gorchwyl a Gorffen

Cwblhaodd y Pwyllgor Adolygiad Gorchwyl a Gorffen o'r enw 'Adolygiad o'r Swyddogaeth Trwyddedu Bridio Cŵn - y Tîm Iechyd Anifeiliaid, Materion Defnyddwyr a Busnes' Cynhaliwyd yr adolygiad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn gytbwys yn wleidyddol ac roedd yn cynnwys casglu tystiolaeth helaeth, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2025 adroddiad terfynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i adolygu Swyddogaeth Trwyddedu Bridio Cŵn - y Tîm Iechyd Anifeiliaid, Materion Defnyddwyr a Busnes. Archwiliodd yr adolygiad effeithiolrwydd y trefniadau presennol, cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol, a'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth, yn enwedig mewn perthynas â bridwyr cŵn heb drwydded.

Trafododd yr aelodau y canlynol:

- cefndir yr adolygiad a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen dros gyfres o gyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror 2024 a mis Mawrth 2025;
- natur sensitif y pwnc a'r angen am gamau gorfodi cymesur a chadarn;
- yr heriau sy'n gysylltiedig â bridwyr cŵn anghyfreithlon a rhai heb drwydded, a nodwyd fel y prif faes pryder yn hytrach na gweithredwyr trwyddedig;
- pwysau adnoddau o fewn y gwasanaeth a'r effaith a gafodd hyn ar y gallu i fynd i'r afael â gweithgarwch anghyfreithlon;
- pwysigrwydd codi safonau'n gyson ar draws bridwyr trwyddedig;
- yr angen i adolygu'r trefniadau adennill costau mewnol ac i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar y broses gosod ffioedd.

Mynegodd yr aelodau eu gwerthfawrogiad i'r swyddogion am eu proffesiynoldeb a'u hymrwymiad i iechyd a llesiant anifeiliaid.

**Canlyniad:**

Daeth yr adolygiad i ben gyda phum argymhelliad lleol a saith argymhelliad cenedlaethol. Cymeradwywyd yr adroddiad yn unfrydol gan y Pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2025 ac fe'i cyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Hydref 2025, lle cafodd ei gymeradwyo'n unfrydol hefyd.

Fel canlyniad pellach i'r adolygiad, ysgrifennodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd at Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2026 yn gofyn am ystyried yr argymhellion cenedlaethol. Ymatebodd Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2026, gan gydnabod y canfyddiadau a chadarnhau y byddai'r argymhellion yn llywio ystyriaethau am ddiwygiadau i ddeddfwriaeth bridio cŵn yn y dyfodol, gan ailddatgan cefnogaeth i Drwyddedu Anifeiliaid Cymru.

### 3.2 Ymweliadau Safle

#### 3.2.1 Ymweliad Safle y Pwyllgor: Arddangos proses adfer tarmac

Ar gais y Pwyllgor yn ystod Sesiwn Datblygu'r Blaenraglen Waith, cymerodd aelodau ran mewn ymweliad safle wedi'i drefnu i gynnig mewnwelediad ymarferol i brosesau adfer tarmac. Rhoddodd yr ymweliad gyfle i arsylwi arddangosiad byw gan ddefnyddio peiriant JCB Pothole Pro.

Roedd y Pwyllgor Craffu wedi cyfarfod yn Depo Cillefwr, yn Nhre Ioan, Caerfyrddin, ar 10 Hydref 2025. Cyn yr arddangosiad, cafwyd sgwrs fer am Toolbox, gan sicrhau bod pawb yn cael gwybod am weithdrefnau diogelwch ac agweddau technegol yr offer.

Cafodd y digwyddiad dderbyniad da, gan ddenu cryn ddiddordeb ymysg Aelodau'r Pwyllgor. Cafwyd arddangosiad ychydig yn llai nag awr ac roedd y Cynghorydd Edward Thomas hefyd yn bresennol. Roedd adborth gan yr aelodau yn dangos consensws cyffredinol, er ei fod yn drawiadol, nid oedd y peiriant JCB Pothole Pro yn ddelfrydol i'r rhwydwaith priffyrdd lleol na'r gofynion penodol ar gyfer atgyweirio tyllau yn y ffordd. Yn lle hynny, roedd y peiriant yn ymddangos yn fwy priodol ar gyfer gwaith atgyweirio mwy.

Yn ogystal, mynegodd aelodau frwdfrydedd dros archwilio technoleg amgen ar gyfer atgyweirio tyllau yn y ffordd, yn enwedig peiriannau sy'n gallu ailgylchu tarmac yn ystod y broses atgyweirio.

### 3.3 Sesiynau Datblygu

Yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i'r sesiynau/seminarau datblygu canlynol a drefnwyd gan yr Awdurdod:-

| Dyddiad | Sesiwn Ddatblygu / Seminar |
|---|---|
| 19/06/25 | Hyfforddiant Gorfodi Rheolau Cynllunio |
| 09/07/25 | Proses Cyhoeddusrwydd Cynllunio |
| 17/07/25 | Partneriaeth Pensiwn Cymru |
| 23/07/25 | Sesiwn Ymwybyddiaeth a Strategaeth Deallusrwydd Artiffisial |
| 01/08/25 | Ymgynghoriad ar y Cynllun Gwasanaethau Clinigol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| 10/09/25 a 12/11/25 | Sesiynau galw heibio system e-ddysgu Thinqi |
| 12/11/25 | Cynlluniau Creu Lleoedd Canol Trefi |
| 03/12/25 | Diweddariad ynghylch y Cynllun Gwasanaethau Clinigol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. |
| 10/12/25 | Diweddariad Blynyddol gan Wasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru cyn pennu'r gyllideb |
| 07/01/26 | Hyfforddiant Tân |
| 05/02/26 a 11/02/26 | Atal Aflonyddu Rhywiol yn y Gweithle |
| 20/02/26 | Sesiwn Briffio am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol |
| 04/03/26 | Diwrnod y Lluoedd Arfog |
| 09/03/26 | Gwellianau i'r A48 |
| 16/03/26 | Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu |

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2026, argymhellodd Aelodau'r Pwyllgor y byddai ymgysylltu â swyddogion WRAP Cymru yn fuddiol i wella dealltwriaeth o'r gefnogaeth a roddwyd i'r Awdurdod yn ystod y cyfnod pontio'r gwasanaeth gwastraff. Aeth y swyddogion ati i drefnu cyfarfod o'r fath, a ddigwyddodd yn dilyn y prif gyfarfod craffu ym mis Ionawr 2026. Rhoddodd gynrychiolwyr WRAP Cymru gyflwyniad cynhwysfawr, ac yna cafwyd sesiwn holi ac ateb rhyngweithiol. Dywedodd yr aelodau a gymerodd ran fod y sesiwn yn addysgiadol iawn ac yn ddiddorol.

## 4. Effaith - Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni?

Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod yn cael eu gwneud gan y Cabinet. Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r 65 o gynghorwyr anweithredol eraill ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny a gweithredu fel 'cyfaill beirniadol”. Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn arbennig o ddylanwadol yn hyn o beth gan ei fod yn rhoi cyfle i Bwyllgorau Craffu ystyried a rhoi sylwadau ar bolisïau a materion sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet.  Hefyd mae Craffu yn helpu i sicrhau bod polisïau'r

Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol.

Mae Craffu yn chwarae rôl allweddol wrth wella'r gwasanaethau a ddefnyddir gan bobl a phlant Sir Gaerfyrddin. Hefyd mae'r broses graffu yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol. Mae cyfraniad preswylwyr lleol, sefydliadau a phartneriaid yn y gymuned yn rhan bwysig o'r broses graffu ac mae ein Cynghorwyr wedi ymrwymo i ymateb i sylwadau a phryderon preswylwyr.

Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn rhoi cyfle i bob Pwyllgor Craffu roi mewnbwn cyn i'r adroddiadau gael eu hystyried gan y Cabinet a dyma lais y bobl. Yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26, mae'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd wedi cael effaith gadarnhaol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:-

- Cwblhau'r adolygiad gorchwyl a gorffen ar fridio cŵn - er gwaethaf heriau mewn perthynas ag adnoddau staff;
- Craffu ar faterion cyllidebol, perfformiad oddi ar y targed a materion mewn perthynas â newid hinsawdd a'u herio.
- Materion perthnasol sy'n effeithio ar drigolion gan gynnwys cyflwyno'r gyfundrefn wastraff a thrafnidiaeth leol.

## 5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae'r swyddogaeth graffu yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Awdurdod lle gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am i eitemau gael eu gosod ar agenda cyfarfod y Pwyllgor. Mae'r rhai sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, neu sy'n berchen ar fusnes neu'n cael eu cyflogi yn y sir, hefyd yn cael gofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu.

Er na dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw awgrymiadau o bynciau posibl gan y cyhoedd yn ystod 2025/26, roedd Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor yn cynnwys amrywiaeth o bynciau a oedd yn gofyn am ymgynghori â'r cyhoedd/cynnwys y cyhoedd.

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o Bwyllgorau Craffu a gallu'r cyhoedd i gyflwyno pynciau i'w trafod, cyhoeddir Blaengynlluniau Gwaith Pwyllgorau Craffu yr Awdurdod, a manylion ynghylch sut y gall y cyhoedd gymryd rhan, ar wefan yr Awdurdod:-

Craffu - Cyngor Sir Caerfyrddin

Yn ystod blwyddyn y cyngor, rhoddodd is-adran Gyfathrebu'r Awdurdod gymorth marchnata digidol i'r swyddogaeth Graffu gan fynd ati i hyrwyddo manylion eitemau ar gyfer y dyfodol a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd mewn ymgais i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogiad y cyhoedd. Gwahoddir y cyhoedd, drwy nifer o wahanol ffyrdd, i gymryd rhan yn y broses Graffu ac i dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n peri pryder.

## 6. Heriau

Er bod y Pwyllgor yn cael ei dangynrychioli gyda 3 swydd wag trwy gydol y flwyddyn, parhaodd Aelodau'r Pwyllgor i weithredu mewn amgylchedd heriol, gan gydbwyso craffu effeithiol â phwysau ar adnoddau gwasanaeth a chapasiti swyddogion.

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i fod yn adeiladol yn ei rôl o ran craffu ar berfformiad, sydd wedi hwyluso'r adran ac wedi cyfrannu'n gadarnhaol at bolisïau a phenderfyniadau. Mae wedi bod yn fater o gydbwysedd i'r Pwyllgor, rhwng cyflawni ei ddyletswyddau craffu a pheidio ag effeithio ar ariannu gwasanaethau rheng flaen.

## 7. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod blwyddyn y cyngor a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser y cyfarfodydd, mae'r Pwyllgor yn awyddus i barhau i weithredu egwyddorion y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu er mwyn cael proses graffu syml a phenodol.

Bydd gwaith y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y cyngor 2026/27 yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor mewn sesiwn cynllunio datblygu ar 24 Ebrill 2027 a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd fel rhan o fonitro'r Blaengynllun Gwaith yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn gwella swyddogaeth graffu'r Awdurdod, bydd aelodau'n parhau i fynd i sesiynau datblygu, yn gofyn am gyngor y swyddogion lle y bo'n briodol ac yn manteisio'n llawn ar drafodaeth anffurfiol cyn cyfarfodydd.

## 8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn Is-adran y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil yn Adran y Prif Weithredwr. Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:-

- llunio ac anfon agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn unol â'r Blaengynlluniau Gwaith;
- darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau'r Cyngor a'i swyddogion;
- rheoli datblygiad strategol Craffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu gyda'r Cabinet;

- rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- rheoli cydlyniad a datblygiad Blaengynlluniau Gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd.
- Cynorthwyo â Rhaglen Datblygu Aelodau'r Pwyllgorau Craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am Graffu yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys Blaengynlluniau Gwaith, adroddiadau Gorchwyl a Gorffen ac Adroddiadau Blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: Craffu - Cyngor Sir Caerfyrddin

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu e-bostiwch craffu@sirgar.gov.uk.

## 9. Presenoldeb

Dangosir presenoldeb gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26 fel y nodir isod. Cynhaliwyd cyfanswm o chwe chyfarfod ffurfiol yn ystod blwyddyn y cyngor. Cafodd y cyfarfod a drefnwyd ym mis Ebrill ei ganslo oherwydd y cyfnod cyn yr etholiad.

| Yr Aelod | Cyfarfodydd a fynychwyd | % |
|---|---|---|
| Sue Allen | 6 | 100% |
| Arwel Davies | 6 | 100% |
| Karen Davies (Is-gadeirydd) | 6 | 100% |
| Lewis Davies | 6 | 100% |
| Colin Evans | 4 | 67% |
| Tina Higgins | 5 | 83% |
| Neil Lewis | 4 | 67% |
| Kevin Madge (Cadeirydd) | 5 | 83% |
| Dorian Phillips | 6 | 100% |
| Gareth Thomas | 4 | 67% |

| Aelodau'r Cabinet | Cyfarfodydd a fynychwyd | % |
|---|---|---|
| Linda Evans | 1 | 17% |
| Carys Jones | 3 | 50% |
| Alun Lenny | 2 | 33% |
| Edward Thomas | 6 | 100% |
| Aled Vaughan Owen | 6 | 100% |

| Aelod Dirprwyol | Cyfarfodydd a fynychwyd | % |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Kim Broom | 1 | 17% |
| Deryk Cundy | 1 | 17% |